# Cyngor Dinas Casnewydd

# Cynnig Adrefnu Ysgolion

# Adroddiad ar yr Ymgynghoriad

**Cynnig i gynyddu Capasiti Ysgol Gynradd Parc Tredegar**

## Cyfnod Ymgynghori Ffurfiol:

### 25 Medi 2023 – 12 Tachwedd 2023

## Diben

Cyhoeddir yr adroddiad hwn yn unol â gofynion Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 a'r Cod Trefniadaeth Ysgolion, Tachwedd 2018

Mae'r adroddiad hwn yn cynnwys yr adrannau canlynol:

- Y Cynnig
- Ymgysylltu â Rhanddeiliaid
- Llais y Dysgwr
- Sesiynau Galw Heibio
- Ymatebion o'r Ymgynghoriad
- Ymateb Estyn
- Ymateb Comisiynydd y Gymraeg
- Effaith ar y Gymraeg
- Asesiad o'r Cynnig
- Argymhellion
- Atodiadau

## Y Cynnig

Mae'r adroddiad hwn ar yr ymgynghoriad yn ymwneud â chynnig i gynyddu capasiti Ysgol Gynradd Parc Tredegar o fis Medi 2024.

## Ymgysylltu â Rhanddeiliaid

Rhoddwyd gwahoddiad i'r rhanddeiliaid a amlinellir isod gymryd rhan yn yr ymgynghoriad statudol, ac anfonwyd e-bost gyda dolen i'r pecyn ymgynghori ar wefan y Cyngor:

- Pennaeth, athrawon, staff a chorff llywodraethu Ysgol Ysgol Gynradd Parc Tredegar;
- Disgyblion Ysgol Gynradd Parc Tredegar;
- Rhieni, gofalwyr a gwarcheidwaid disgyblion sy'n mynychu Ysgol Gynradd Parc Tredegar;
- Pennaeth a Chorff Llywodraethu pob ysgol yng Nghasnewydd;
- Holl aelodau etholedig Cyngor Dinas Casnewydd;
- Pob Cyngor Cymuned yng Nghasnewydd;
- Gweinidogion Cymru;
- Aelodau'r Senedd (ACau) ac Aelodau Seneddol (ASau) sy'n cynrychioli'r ardal a wasanaethir gan yr ysgol sy'n destun y cynnig;
- Awdurdodau Lleol eraill ledled rhanbarth Consortiwm De-ddwyrain Cymru, gan gynnwys adrannau trafnidiaeth perthnasol;
- Gwasanaeth Cyflawni Addysg De-ddwyrain Cymru;
- Yr Eglwys yng Nghymru, Esgobaeth Trefynwy;
- Yr Archesgobaeth Gatholig;
- Estyn;
- Undebau staff addysgu a staff cymorth yn cynrychioli athrawon a staff ymhob ysgol yng Nghasnewydd;
- Partneriaeth Datblygu'r Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant;
- Pob darparwr addysg feithrin cofrestredig nas cynhelir yn yr ardal leol.
- Comisiynydd Heddlu a Throseddu Gwent;
- Heddlu Gwent;
- Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru;
- Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan;
- Iechyd Cyhoeddus Cymru;
- Canolfan Serennu Casnewydd;
- SNAP Cymru;
- Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Gwent;
- Gwasanaethau Ataliol.

*Ysgolion yr effeithir arnynt*

Yr ysgol y mae'r cynnig hwn yn effeithio'n uniongyrchol arni yw **Ysgol Gynradd Parc Tredegar.**

*Dosbarthu Gwybodaeth*

Yn ogystal â'r ddogfen ymgynghori ffurfiol (prif), cynhyrchwyd Fersiwn Crynodeb Bob Dydd i Blant a Phobl Ifanc hefyd. Roedd yr holl ddogfennau ar gael yn ddwyieithog yn Gymraeg a Saesneg.

Cynigiwyd copïau caled o'r ddogfen ymgynghori lawn a'r Fersiwn Crynodeb Bob Dydd i Blant a Phobl Ifanc i Ysgol Gynradd Parc Tredegar.

Roedd modd gofyn am gopïau caled hefyd drwy e-bostio school.reorg@newport.gov.uk neu ffonio 01633 656656 ac roedd y rhain ar gael yn ddwyieithog yn Gymraeg a Saesneg. Cynigiwyd y ddogfen mewn ieithoedd eraill ar gais hefyd, ond ni chafwyd ceisiadau o'r fath.

Mae'r wybodaeth ar yr ymgynghoriad wedi'i rhannu ar gyfrifon Facebook ac X (Twitter gynt) Cyngor Dinas Casnewydd, a thrwy wefan Ysgol Gynradd Parc Tredegar.

## Llais y Dysgwr

Mae'r Cyngor yn awyddus i gael barn dysgwyr, a hwyluswyd hyn drwy sesiwn a gynhaliwyd gyda disgyblion o wahanol grwpiau blwyddyn yn Ysgol Gynradd Parc Tredegar ddydd Llun 9 Hydref 2023.

Roedd y mynychwyr canlynol yn bresennol:

- 10 disgybl yn cynrychioli gwahanol grwpiau blwyddyn
- Pennaeth
- Rheolwr Trawsnewid Addysg
- Swyddog Gwybodaeth a Datblygu Addysg

Cyflwynodd swyddogion y Cyngor a oedd yn bresennol yn y sesiwn eu hunain i'r disgyblion, ac arweiniwyd y sesiwn gan y Rheolwr Trawsnewid Addysg. I ddechrau, eglurodd y Rheolwr Trawsnewid Addysg y cynnig i'r disgyblion. Yna rhoddwyd cyfle i'r disgyblion ofyn cwestiynau, a amlinellir yn y tabl isod.

| **Cwestiwn/ Sylw** | **Ymateb y Cyngor** |
|---|---|
| Lle yn yr ysgol fydd yr ystafelloedd dosbarth ychwanegol yn cael eu rhoi? | Mae'r feithrinfa breifat sy'n cael ei rhedeg gan dîm Cyswllt Cymunedol Duffryn wedi symud i flaen adeilad Canolfan Deulu y Fforest. Mae hyn yn golygu y bydd ardal Canolfan Deulu y Fforest a arferai fod yn feithrinfa breifat yn cael ei defnyddio i greu ystafelloedd dosbarth ychwanegol a fydd yn cael eu defnyddio gan y grwpiau blwyddyn iau yn yr ysgol. Bydd ardaloedd ystafelloedd dosbarth Blwyddyn 5 a Blwyddyn 6 hefyd yn cael eu hailfodelu i greu ystafell ddosbarth ychwanegol. |

| | |
|---|---|
| Gyda'r disgyblion ychwanegol, a fyddai gormod o ddisgyblion ar y maes chwarae yn ystod amseroedd egwyl? | Mae gan yr ysgol lawer o leoedd awyr agored i'r disgyblion eu defnyddio, ond gellid rhoi amserlenni ar waith hefyd fel y byddai gwahanol ddosbarthiadau yn cael amseroedd egwyl gwahanol, a fydd yn lleihau nifer y disgyblion sydd ar y maes chwarae ar yr un pryd. |
| Os bydd tân, a fyddai'n mynd yn rhy brysur? | Bydd gan bob ystafell ddosbarth gynllun gadael adeilad ac allanfa dân benodol, yn union fel sydd ganddynt nawr. |
| A ellid creu mwy o ystafelloedd dosbarth/ ardaloedd ar gyfer disgyblion ychwanegol ar ôl yr ehangiad hwn? | Na, mae'n debyg mai dyma fydd yr uchafswm o ran nifer y disgyblion a fydd yn gallu mynychu'r ysgol ar y safle hwn. |
| A fydd y diwrnodau ysgol yn hirach? | Na, ni fydd y cynnig yn newid hyd y diwrnod ysgol. |
| Beth os nad oes lle ychwanegol mewn ystafelloedd dosbarth ar gyfer mwy o ddisgyblion? | Nid ydym yn bwriadu ychwanegu disgyblion ychwanegol i'r ystafelloedd dosbarth presennol. Bydd ystafelloedd dosbarth newydd ar gyfer y disgyblion ychwanegol. |
| Beth os oes mwy na 75 o ddisgyblion bob blwyddyn? | 75 disgybl fesul grŵp blwyddyn fyddai'r uchafswm sy'n gallu ffitio yn yr ysgol. Os derbynnir mwy o geisiadau, yn anffodus bydd yn rhaid gwrthod rhai a chynnig lle mewn ysgol arall. |

Gwahoddwyd y disgyblion i roi eu barn ar y manteision a fyddai'n dod o'r cynnig. Roedd y manteision posibl yn cynnwys:

- Cyfleoedd i wneud ffrindiau newydd;
- Mwy o blant i chwarae gyda nhw;
- Cyfle i ddysgu ieithoedd newydd os yw'r disgyblion newydd yn siarad ieithoedd eraill;
- Gallai mwy o ddisgyblion olygu mwy o gyllid i'r ysgol;
- Mwy o gyfle i frodyr a chwiorydd fynychu'r un ysgol gyda mwy o leoedd ar gael;
- Mwy o gyfleoedd swyddi.

Rhoddwyd cyfle i'r disgyblion gwblhau copïau caled o'r Ffurflen Ymateb i'r Ymgynghoriad yn ystod y sesiwn.

Mae'r Cyngor yn ddiolchgar iawn i'r staff a'r disgyblion a gymerodd ran yn y sesiwn hon, ac am ddiolch iddynt am eu cyfraniadau gwerthfawr i'r broses ymgynghori hon.

## Sesiynau Galw Heibio

Hwylusodd y Cyngor hefyd ddwy sesiwn  galw heibio fel y nodir isod, a chafodd y rhain eu cyhoeddi trwy wefan y Cyngor ac ym mhob gohebiaeth a dogfennaeth yn ymwneud â'r cynnig.  Roedd y sesiynau galw heibio yn gyfle i fynychwyr ofyn cwestiynau ac i swyddogion y Cyngor esbonio'r cynnig yn fanylach.

| Tabl 1: Sesiynau Galw Heibio | | |
|---|---|---|
| **Lleoliad** | **Dyddiad ac Amser** | **Sesiwn** |
| **Ysgol Gynradd Parc Tredegar - Neuadd Fabanod** | Dydd Mawrth 3 Hydref 2023<br>08:45 – 09:45 | Galw Heibio |
| **Ysgol Gynradd Parc Tredegar - Neuadd Fabanod** | Dydd Llun 9 Hydref 2023<br>14:45 – 15:45 | Galw Heibio |

**Sesiwn Galw Heibio 1 – Dydd Mawrth 3 Hydref 2023**

Cefnogwyd y sesiwn galw heibio gyntaf, a gynhaliwyd yn Ysgol Gynradd Parc Tredegar gan Bennaeth yr ysgol a dau swyddog o'r Cyngor o'r Gwasanaeth Addysg Ganolog. Roedd copïau caled o'r brif ddogfen ymgynghori, fersiwn Crynodeb Bob Dydd i Blant a Phobl Ifanc a ffurflenni ymateb ar gael yn y sesiwn yn Gymraeg a Saesneg.

Ni ddaeth unrhyw randdeiliaid i'r sesiwn hon.

**Sesiwn Galw Heibio 2 – Dydd Llun 9 Hydref 2023**

Cefnogwyd yr ail sesiwn galw heibio, a gynhaliwyd yn Ysgol Gynradd Parc Tredegar gan ddau swyddog o'r Cyngor o'r Gwasanaeth Addysg Ganolog. Roedd copïau caled o'r brif ddogfen ymgynghori, fersiwn Crynodeb Bob Dydd i Blant a Phobl Ifanc a ffurflenni ymateb ar gael yn y sesiwn yn Gymraeg a Saesneg.

Daeth dau randdeiliad i'r sesiwn hon gan fanteisio ar y cyfle i ofyn cwestiynau, a amlinellir isod:

**Cwestiwn:***"A allai'r cynnydd effeithio ar fy mhlentyn a allai fod yn mynychu'r dosbarth meithrin o fis Medi 2024 trwy ei roi mewn dosbarth mawr?*

**Ymateb y Cyngor:** *"Ni fyddai'r cynnig yn effeithio ar faint dosbarthiadau. Mae deddfwriaeth Maint Dosbarth Babanod yn golygu na ddylai dosbarthiadau'r Cyfnod Sylfaen gynnwys mwy na 30 o ddisgyblion. Yng Nghyfnod Allweddol 2, mae uchafswm o 30 o blant fesul dosbarth yn darged y dylai pob ysgol fod yn gweithio tuag ato". (Defnyddiwyd y tabl yn y ddogfen ymgynghori i ddangos strwythur arfaethedig y dosbarth.)*

**Cwestiwn:** *"A fydd y cynnydd arfaethedig yn nifer y lleoedd yn ddigon i ddarparu ar gyfer y datblygiadau tai newydd sy'n cael eu hadeiladu yn yr ardal?"*

**Ymateb y Cyngor:** *"Mae'r cynnig hwn yn un o dair ysgol yr effeithir arnynt yn yr ardal, a phob un yn darparu lleoedd ychwanegol, gan y bydd yr ysgol gynradd Gymraeg newydd (Ysgol Gymraeg Nant Gwenlli) yn symud i'w lleoliad parhaol ym Mhilgwenlli yn fuan, a bydd Ysgol Gynradd Pilgwenlli yn symud i safle Whiteheads. Yn dilyn y symudiadau hyn, bydd y ddwy ysgol hyn yn cynyddu o ran maint i ddarparu lleoedd ysgol ychwanegol."*

## Ymatebion o'r Ymgynghoriad


Derbyniwyd cyfanswm o 27 o ymatebion yn ystod y cyfnod ymgynghori. Derbyniwyd 24 o ymatebion drwy'r ffurflen ymateb (gweler Atodiad A) ar-lein a thrwy gopïau caled, gan amrywiaeth o randdeiliaid gan gynnwys:

- Rhieni/ Gofalwyr
- Preswylwyr lleol
- Disgyblion

Cafwyd 3 ymateb ysgrifenedig hefyd drwy e-bost gan Undeb Llafur Athrawon, Estyn (Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru) a Chomisiynydd y Gymraeg. Yn ystod yr ymgynghoriad, cysylltodd y Pennaeth Seilwaith â'r Gwasanaeth Addysg hefyd i wneud ymholiadau ynghylch a allai'r cynnig gael effaith bosibl ar gostau a threfniadau trafnidiaeth o'r cartref i'r ysgol. Fodd bynnag, cadarnhaodd y Prif Swyddog Addysg, gan y byddai'r cynnig yn cynyddu argaeledd lleoedd ysgol lleol i blant lleol, byddai hyn o bosibl yn helpu i leihau nifer y disgyblion sydd angen cymorth trafnidiaeth o'r cartref i'r ysgol a ariennir.

Roedd yr ymateb ffurflen yn cynnig cyfle i ymatebwyr ateb cwestiwn uniongyrchol mewn perthynas â'r cynnig, fel a ganlyn:

*'Ydych chi'n cefnogi'r cynnig i gynyddu capasiti Ysgol Gynradd Parc Tredegar i 2.5 dosbarth mynediad o fis Medi 2024?*




Roedd 11 o'r 24 o ymatebwyr (46%) yn cefnogi'r cynnig, gydag un ymateb yn nodi bod y gymuned wedi tyfu'n aruthrol yn ystod y blynyddoedd diwethaf.

Roedd 4 o’r 24 o ymatebwyr (17%) yn cefnogi'r cynnig yn rhannol. Mae'r sylwadau a godwyd drwy'r ymatebion hyn wedi'u crynhoi, ynghyd ag ymateb gan y Cyngor fel a ganlyn:

| **Sylwadau/ Cwestiwn** | **Nifer y Sylwadau Tebyg** | **Ymateb y Cyngor** |
|---|---|---|
| Byddai'n fuddiol i ardal Duffryn gael ysgol gynradd newydd wedi'i hadeiladu oherwydd bod yr ysgol bresennol yn agos at ei chapasiti. | 2 | Nid oes gan y Cyngor ddarn addas o dir yn yr ardal ar gyfer ysgol arall. Mae rhagolygon disgyblion yn dangos y byddai'r ehangiadau arfaethedig presennol yn ddigonol i ymdopi â'r galw disgwyliedig o'r ardal a'r datblygiadau tai newydd. |
| Cefnogir darparu lleoedd ychwanegol, ond mae gennyf bryderon am y lefelau traffig yn yr ardal a sut y byddai unrhyw ehangiad yn cael effaith negyddol ar draffig a pharcio. | 2 | Gellir cyrraedd safle'r ysgol o Kestrel Way/ Duffryn Drive a Partridge Way/ Lighthouse Road. Mae'r rhan fwyaf o gartrefi yn y dalgylch o fewn pellter cerdded, ac mae'r ysgol wrthi'n gweithio gyda SUSTRANS a Thîm Priffyrdd y Cyngor i annog rhieni a gofalwyr i beidio â gyrru i'r ysgol. |
| Mae gennyf bryderon am faint dosbarthiadau a bod yr amgylcheddau dysgu yn rhy llawn i blant ddysgu mewn amgylchedd tawel. | 1 | Ni fwriedir i unrhyw ddosbarth gael mwy na 30 o ddisgyblion. Fodd bynnag, yn y pen draw, bydd yr ehangiad arfaethedig yn ei gwneud yn ofynnol i'r ysgol gynnal nifer fach o ddosbarthiadau oedran cymysg lle mae nifer y disgyblion mewn grŵp blwyddyn yn fwy na 60 o ddisgyblion, fel sy'n arferol mewn ysgolion 2.5 Dosbarth Mynediad. Ar ôl i'r cyfnod ymgynghori ddod i ben, cadarnhaodd y Pennaeth fod pob dosbarth Cyfnod Sylfaen yn cael eu trefnu i gael 30 disgybl neu lai. |

Nid oedd 9 o’r 24 o ymatebwyr (38%) yn cefnogi'r cynnig; cyflwynodd rai o'r rhain sylwadau a chwestiynau ychwanegol, sydd wedi'u hamlinellu isod:

| **Sylwadau/ Cwestiwn** | **Nifer y Sylwadau Tebyg** | **Ymateb y Cyngor** |
|---|---|---|
| Mae'r ysgol eisoes yn swnllyd. Os bydd mwy o blant yn mynychu, bydd hyn yn siŵr o gynyddu. | 1 | Mae posibilrwydd y bydd amserlenni'n cael eu rhoi ar waith fel y byddai gwahanol ddosbarthiadau yn cael amseroedd egwyl gwahanol, gan leihau nifer y disgyblion ar y maes chwarae ar un adeg, a gallai hyn negyddu unrhyw gynnydd o ran lefelau sŵn. |
| Mae'r ystafelloedd dosbarth yn rhy llawn i allu canolbwyntio’n iawn a chael cefnogaeth ddigonol. | 1 | Yn y pen draw, bydd yr ehangiad arfaethedig yn ei gwneud yn ofynnol i'r ysgol gynnal nifer fach o ddosbarthiadau oedran cymysg lle mae nifer y disgyblion mewn grŵp blwyddyn yn fwy na 60 o ddisgyblion, fel sy'n arferol mewn ysgolion 2.5 Dosbarth Mynediad. Ni fwriedir i unrhyw ddosbarth gael mwy na 30 o ddisgyblion. Ar ôl i'r cyfnod ymgynghori ddod i ben, cadarnhaodd y Pennaeth fod pob dosbarth Cyfnod Sylfaen yn cael eu trefnu i gael 30 disgybl neu lai. |

| | | |
|---|---|---|
| Bydd ychwanegu disgyblion ychwanegol yn rhoi mwy o bwysau ar lwybrau cerdded at yr ysgol sy'n gul ac yn dioddef llifogydd yn gyson, sy'n golygu bod yn rhaid i blant a rhieni gerdded ar laswellt ac ardaloedd mwdlyd. Bydd problemau traffig a pharcio hefyd yn gwaethygu os bydd nifer y disgyblion yn cynyddu. | 2 | Mae Cartrefi Dinas Casnewydd yn gweithio i fynd i'r afael â'r materion draenio a llifogydd yn yr ardal hon. Bydd hyn yn caniatáu i'r llwybrau gael eu defnyddio heb fod angen cerdded ar y glaswellt a'r ardaloedd mwdlyd. Mae'r rhan fwyaf o gartrefi yn y dalgylch o fewn pellter cerdded, ac mae'r ysgol wrthi'n gweithio gyda SUSTRANS a Thîm Priffyrdd y Cyngor i annog rhieni a gofalwyr i beidio â gyrru i'r ysgol. |
| Mae Ysgol Gymraeg Nant Gwenlli i fod i symud i'w lleoliad parhaol ym Mhilgwenlli yn 2024. Dylid hyrwyddo hyn i annog plant lleol i gofrestru eu plant yno. | 1 | Mae Cyngor Dinas Casnewydd yn cydnabod yr angen i hyrwyddo addysg Gymraeg ac mae grŵp amlasiantaethol penodol ar waith sydd â ffocws cryf ar hyrwyddo addysg Gymraeg. Mae'r gweithgareddau hyrwyddo hyn yn cynnwys:<br>• Diweddariadau i ymgyrch 'Dod yn Ddwyieithog' Casnewydd;<br>• Hyrwyddo sesiynau gwybodaeth Dechrau'n Deg ar gyfer rhieni sy'n disgwyl yn y ddinas;<br>• Cydweithio â'r Pencampwr Hyrwyddo Addysg Cyfrwng Cymraeg Rhanbarthol;<br>• Rhannu gwybodaeth hyrwyddo gyda chydweithwyr ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan;<br>• Gwnaed gwaith hyrwyddo yn ardal Pilgwenlli i hyrwyddo'r ysgol newydd i drigolion lleol, wedi'i gydlynu a'i gynllunio gan Menter Iaith Casnewydd a phartneriaid allweddol;<br>• Prosiectau fideo hyrwyddo;<br>• Cyfathrebu gyda grwpiau'r Blynyddoedd Cynnar. |

Roedd yr ymateb a gafwyd gan Undeb Llafur Athrawon **yn rhannol gefnogol** o'r cynnig. Mae'r ymateb llawn wedi'i gynnwys yn Atodiad B ond mae'n cynnwys y canlynol:

*Mae Cymdeithas Genedlaethol yr Ysgolfeistri ac Undeb yr Athrawesau yn falch nad oes unrhyw effaith negyddol ar nodweddion staffio yn y cynnig. Bydd angen penodi staff ychwanegol yn Ysgol Gynradd Parc Tredegar i ddarparu ar gyfer y niferoedd ychwanegol o ddisgyblion. Bydd y Pennaeth a'r Corff Llywodraethu yn rheoli hyn yn unol â phrosesau recriwtio y cytunwyd arnynt. Ond, er mwyn cefnogi'r cynnig, byddem yn gofyn am sicrwydd pendant na fyddai'r cynnig hwn yn cael unrhyw effaith anuniongyrchol ar ofynion staffio mewn ysgolion eraill. Mae hyn yn cynnwys ysgolion cynradd ac uwchradd y tu mewn a'r tu allan i'r dalgylch. Er mwyn cynnal ansawdd uchel o addysgu a dysgu, mae'n hanfodol nad yw maint dosbarthiadau yn cynyddu. Rydym hefyd yn pryderu bod angen ariannu'r cynnydd mewn NDC yn briodol.*

Mae'r ymateb hefyd yn cyfeirio at ddata a gafwyd o'r wefan *My Local Schools* i gefnogi'r sylwadau hyn drwy nodi:

*Mae'r gymhareb athrawon disgyblion (CAD) yn yr ysgol hon yn llai ffafriol na chyfartaledd yr awdurdod lleol a Chymru yn y pum mlynedd o 2018. Mae'r data'n dangos bod swm yr arian a ddarparwyd ar gyfartaledd, fesul disgybl, yn is na chyfartaledd ysgolion cynradd eraill yng Nghasnewydd mewn pedair o'r chwe blynedd diwethaf.*

*Yn olaf, mae angen ystyried effaith y gwaith adeiladu ar y gwaith o redeg yr ysgol o ddydd i ddydd os cymeradwyir y cynnig hwn. Mae angen rhoi cynllun priodol ar waith i sicrhau bod parhad dysgu yn ystod y gwaith adeiladu. Y flaenoriaeth yw lleihau aflonyddwch i ddysgwyr ac athrawon yn yr ysgol.*

**Ymateb Cyngor Dinas Casnewydd:**

Ni ddisgwylir unrhyw effaith ar ysgolion eraill. Mae'r cynnig i gynyddu capasiti'r ysgol yn raddol dros saith mlynedd yn golygu bod y tebygolrwydd y bydd disgyblion yn trosglwyddo o ysgolion eraill i Ysgol Gynradd Parc Tredegar yn isel iawn. Nid oes unrhyw gynlluniau i leihau capasiti unrhyw ysgol arall o fewn clwstwr Ysgol John Frost o ganlyniad i'r cynnig hwn.

Ni fwriedir i unrhyw ddosbarth unigol gael mwy na 30 o ddisgyblion. Byddai lle i 525 o ddisgyblion ar draws 18 dosbarth, pob un â 30 disgybl neu lai.

Mae cydweithwyr yn Nhîm Cyllid y Cyngor wedi cadarnhau na ddylid dibynnu ar y ffigur cyllideb yr ysgol fesul disgybl a gymerwyd o *My Local School* am gymhariaeth gywir ag ysgolion eraill gan ei fod yn gyfrifiad syml o gyfanswm cyllideb yr ysgol wedi'i rannu â nifer y disgyblion ar y gofrestr ac nid yw'n ystyried ffactorau eraill sy'n effeithio ar gyllid, megis maint a chyflwr adeiladau a thiroedd. Yr Uned a Bwysolwyd ar sail Oedran y Disgybl (UBOD) yw'r gyfradd y mae'r Awdurdodau Lleol wedi'i phennu i ddyrannu cyllid hawl sylfaenol ar gyfer disgyblion cyn 16 mewn ysgolion prif ffrwd. Mae hawl sylfaenol yn ffactor gorfodol y mae'n rhaid ei ddefnyddio yn y fformiwla ariannu ac mae'r gyfradd UBOD yr un gwerth fesul grŵp blwyddyn/ categori ar draws holl ysgolion Casnewydd. Yn eu hadroddiad arolygu diweddaraf (Hydref 2022) noda Estyn fod arweinwyr yr ysgol yn "rheoli cyllideb yr ysgol a'r grant datblygu disgyblion yn dda, gan gysylltu gwariant yn briodol ag anghenion a gweithgareddau gwella".

Mae'r Cyngor yn cytuno'n llwyr bod lleihau aflonyddwch i athrawon a dysgwyr yn hanfodol. Am y rheswm hwn, bydd y Cyngor yn gweithio gyda'r ysgol i sicrhau bod unrhyw waith aflonyddgar yn cael ei gwblhau drwy drefniant, fel bod yr ysgol naill ai ar gau neu nad yw'r ardaloedd hynny yr effeithir arnynt yn cael eu meddiannu.

## Ymateb Estyn

Mae'r ymateb llawn gan Estyn yn Atodiad C yr adroddiad hwn. Yn gryno, mae'r ymateb yn dweud bod y cynnig yn debygol o leiaf o gynnal safon bresennol y ddarpariaeth yn yr ysgol.

Mae ymateb Estyn yn nodi '*Mae'r cyngor wedi darparu tabl sy'n amlinellu'r camau a'r hyd ar gyfer y broses ymgynghori ond nid yw wedi cynnwys unrhyw ddyddiadau arfaethedig yn y tabl hwn. Nid yw ychwaith wedi cyfeirio at a fyddai angen unrhyw drefniadau interim sy'n angenrheidiol ar gyfer gweithredu'r cynnig.*' a '*Mae'r cyngor wedi nodi pedwar risg o'r cynnig ac wedi rhestru mesurau lliniaru. Fodd bynnag, mae'n ymddangos nad oes digon o fanylion ynghylch y mesurau lliniaru hyn*'.

**Ymateb gan y Cyngor:**

Mae'r Cyngor yn cydnabod nad oedd y ddogfen ymgynghori yn cynnwys dyddiadau arfaethedig yn y tabl sy’n amlinellu'r broses. Roedd hwn yn benderfyniad a wnaed yn fwriadol oherwydd gall nifer o ffactorau effeithio ar ddyddiadau ac felly gallant newid. Fodd bynnag, gall y Cyngor gadarnhau y bydd y cynnydd arfaethedig mewn capasiti yn cael ei weithredu'n raddol a bod adeiladau'r ysgol eisoes yn darparu digon o le i gefnogi'r camau ehangu cyntaf. O'r herwydd, nid oes angen unrhyw fesurau dros dro i gefnogi'r gwaith gweithredu.

Mewn perthynas â lliniaru risg, mae grŵp Cynllunio Lleoedd Ysgol y Cyngor yn grŵp trawsadrannol sy'n monitro niferoedd a rhagamcanion disgyblion yn barhaus ar sail ardal leol. Un o brif ddibenion y grŵp hwn yw ystyried ac argymell mesurau mewn ymateb i sefyllfaoedd a ragwelir, megis creu capasiti ychwanegol neu gynnig lleihau nifer derbyn cyhoeddedig (NDC) ysgol.

Mae ymateb Estyn hefyd yn dweud '*Mae'r cyngor wedi nodi mai cost y cynnig yw £1m drwy gyllid cymeradwy gan Lywodraeth Cymru. Mae wedi nodi ymhellach mai cost y 105 o leoedd ychwanegol fydd tua £360,000 y flwyddyn a bydd y cynnydd mewn costau yn cael ei ariannu drwy gyllideb ddirprwyedig yr ysgol. Fodd bynnag, nid yw'n ymddangos bod y cyngor wedi ystyried beth fyddai'r effaith ar y gyllideb pe na bai'r lleoedd ychwanegol yn cael eu cymryd. Nid yw'r awdurdod lleol wedi darparu Asesiad o’r Effaith ar y Gymraeg fel rhan o'r cynnig hwn. Nid yw'r awdurdod lleol wedi darparu Asesiad o’r Effaith ar y Gymuned fel rhan o'r cynnig hwn’.*

Mae pwynt olaf Estyn yn nodi '*Mae'r cyngor wedi darparu 'Asesiad o’r Effaith ar Degwch a Chydraddoldeb' fel dogfen ar wahân. Yn adroddiad arolygu diwethaf yr ysgol, nodwyd bod gan 19.2% o blant anghenion dysgu ychwanegol a nodwyd bod 7.5% o ddisgyblion â Saesneg fel iaith ychwanegol. Mae'r rhain yn uwch na'r cyfartaleddau cenedlaethol ond nid oes gwerthusiad o effaith y cynnig ar y grwpiau hyn*'.

**Ymateb gan y Cyngor***:*

Bydd y cynnydd hwn o ran capasiti yn cael ei ddiwallu trwy ail-bwrpasu gofod presennol yn yr ysgol, felly bydd unrhyw bwysau cyllidebol yn ymwneud â chostau staffio ac adnoddau dysgu sy'n gysylltiedig â disgyblion ychwanegol.

Cafodd crynodeb o'r asesiad o’r effaith ar y Gymraeg ei gynnwys ar dudalen 19 y ddogfen ymgynghori, ac mae'r AEDCh ar wahân yn rhoi rhagor o fanylion am yr effaith debygol ar y Gymraeg, ac yn nodi bod cyfran y plant sydd â Saesneg fel iaith ychwanegol (SIY) yn sylweddol is na chyfartaledd Casnewydd. Nododd adroddiad arolygu diwethaf yr ysgol fod disgyblion ag ADY yn cael cefnogaeth dda ac mae'r Cyngor yn credu y bydd mwy o ddisgyblion yn gallu elwa o ethos a galluoedd cynhwysol yr ysgol os bydd y capasiti yn cynyddu. Yn dilyn adborth gan randdeiliaid, adolygwyd adran effaith ar y Gymraeg yr AEDCh i roi ystyriaeth a manylion pellach ar yr elfen hon.

## Ymateb Comisiynydd y Gymraeg

Mae’r ymateb llawn gan Gomisiynydd y Gymraeg yn Atodiad D yr adroddiad hwn.

Mae ymateb Comisiynydd y Gymraeg yn datgan '*Yn yr adran 'Effaith ar ddarpariaeth Gymraeg' nodir na fydd y cynnig i ehangu Ysgol Gynradd Parc Tredegar yn effeithio ar gynlluniau'r Cyngor ar gyfer tyfu darpariaeth addysg Gymraeg ar draws Casnewydd. Mae'r Asesiad o’r Effaith ar Gydraddoldeb a Thegwch yn egluro bod digon o leoedd yn y sector cyfrwng Cymraeg yn yr ardal a bod disgwyl i hyn barhau pan fydd Ysgol Gymraeg Nant Gwenlli yn cael ei symud i'w lleoliad parhaol fel ysgol sy'n tyfu. Fodd bynnag, mae gennym bryderon am hyn. Bydd dalgylch Ysgol Gynradd Parc Tredegar o fewn dalgylch Ysgol Gymraeg Nant Gwenlli. Nodir bod 75.3% o leoedd gwag yn Ysgol Gymraeg Nant Gwenlli ar hyn o bryd. Yng nghyd-destun ehangu Ysgol Gynradd Parc Tredegar, sy'n dechrau flwyddyn cyn i Ysgol Gymraeg Nant Gwenlli symud i'r dalgylch, ydy'r Cyngor wedi ystyried sut y bydd yn hyrwyddo Ysgol Gymraeg Nant Gwenlli er mwyn sicrhau ei bod yn cyrraedd ei photensial o ran cynyddu capasiti?*'.

Mae'r ymateb yn mynd ymlaen i ddweud '*Gan fod y Cyngor yn ffafrio ehangu Ysgol Gynradd Parc Tredegar yn benodol i ddelio â phwysau yn y dyfodol yn sgil datblygiadau tai newydd, gofynnwn pa ystyriaeth y mae'r Cyngor wedi'i rhoi i botensial Ysgol Gymraeg Nant Gwenlli yn y cyd-destun hwn? A oes gan y Cyngor gynlluniau i hyrwyddo manteision addysg Gymraeg i'r teuluoedd fydd yn symud i'r cartrefi newydd hynny? Dylid sicrhau bod addysg Gymraeg yn cael ei chyflwyno fel dewis gwerthfawr i'r teuluoedd fydd yn setlo yn y datblygiadau tai hynny*. *Dylai'r Cyngor ystyried i ba raddau y gallai ehangu Ysgol Gynradd Parc Tredegar effeithio ar gyflawni targedau’r CSCA, yn enwedig Deilliannau 1 a 2, sydd mor ddibynnol ar lwyddiant Ysgol Gymraeg Nant Gwenlli. Pe bai'r Cyngor yn penderfynu gweithredu'r cynnig, byddem yn argymell yn gryf ei fod yn sefydlu mesurau lliniaru clir a chadarn i sicrhau nad yw ehangu Ysgol Gynradd Parc Tredegar yn cael effaith niweidiol ar ddatblygiad addysg Gymraeg yn y dalgylch. Fel y gwyddoch, mae safonau'r Gymraeg yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol roi ystyriaeth lawn a chydwybodol i effaith bosibl penderfyniadau polisi ar y Gymraeg'.*

**Ymateb gan y Cyngor:**

Yn anffodus, bydd y cynnydd cynyddrannol o ran capasiti Ysgol Gynradd Parc Tredegar yn lleihau canran y lleoedd cyfrwng Cymraeg a gynigir fel cyfran o holl leoedd yr ardal dros dro, am un flwyddyn academaidd. Fodd bynnag, ni fydd yn cael unrhyw effaith ar argaeledd nifer ddigonol o leoedd mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg i alluogi twf parhaus yn y niferoedd sy'n cael mynediad at ddarpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg, yn unol â Chynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg (CSCA) y Cyngor. Felly, er y gall darpariaeth cyfrwng Saesneg gynyddu, mae’r Cyngor wedi ymrwymo i'r un cynnydd cynyddrannol yng nghanran y niferoedd ar draws y sector cyfrwng Cymraeg yn unol â thargedau’r CSCA, a bydd y nifer gwirioneddol yn gymesur â maint y garfan flwyddyn ar ôl blwyddyn. Mae targed y CSGA yn ganran o garfan y flwyddyn berthnasol ac nid canran y lleoedd sydd ar gael.


Cydnabyddir y bydd rhai aelwydydd yn byw o fewn pellter cerdded hawdd i ysgol cyfrwng Saesneg, ond yn bellach o Ysgol Gymraeg Nant Gwenlli. Bydd rhai o'r rhain yn byw o fewn 2 filltir i ysgol ddalgylch cyfrwng Cymraeg ac felly ddim yn gymwys i gael trafnidiaeth ysgol wedi'i hariannu. Bydd y cymhelliant hwn i ddewis addysg cyfrwng Cymraeg yn cael ei wrthbwyso gan ein hymgyrch hyrwyddo a fydd yn tynnu sylw at fanteision amrywiol addysg cyfrwng Cymraeg i deuluoedd. Mae gweithgareddau hyrwyddo Cymraeg Casnewydd yn cynnwys:

- Diweddariadau i ymgyrch 'Dod yn Ddwyieithog' Casnewydd;
- Hyrwyddo sesiynau gwybodaeth Dechrau'n Deg ar gyfer rhieni sy’n disgwyl yn y ddinas;
- Cydweithio â’r Pencampwr Hyrwyddo Addysg Cyfrwng Cymraeg Rhanbarthol;
- Rhannu gwybodaeth hyrwyddo gyda chydweithwyr ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan;
- Gwnaed gwaith hyrwyddo yn ardal Pilgwenlli i hyrwyddo'r ysgol newydd i drigolion lleol, wedi'i gydlynu a'i gynllunio gan Menter Iaith Casnewydd;
- Prosiectau fideo hyrwyddo;
- Cyfathrebu gyda grwpiau'r Blynyddoedd Cynnar.
- Dosbarthu gwybodaeth 'Dod yn Ddwyieithog' yn rheolaidd i rieni/ gofalwyr plant a wahoddwyd i wneud cais am leoedd meithrin ac ysgol

## Effaith ar y Gymraeg

Roedd yr ymateb i'r ymgynghoriad ffurflen hefyd yn gofyn i ymatebwyr roi eu barn ar effaith debygol y cynnig ar yr iaith Gymraeg.

‘A ydych chi’n credu y bydd y cynnig yn effeithio’n gadarnhaol neu’n negyddol ar gyfleoedd i ddefnyddio’r Gymraeg?’




Atebodd 4 o’r 24 o ymatebwyr (17%) 'Cadarnhaol', atebodd 10 o’r ymatebwyr (42%) 'Dim effaith', ac atebodd 9 o’r ymatebwyr (38%) 'Negyddol'.  Crynhoir y sylwadau a ddarparwyd gan y rhai a atebodd 'Negyddol' isod. Nid yw 1 ymatebydd wedi rhoi ateb i'r cwestiwn hwn.

| Sylwadau/ Cwestiwn | Nifer y Sylwadau Tebyg | Ymateb y Cyngor |
|---|---|---|
| Buddsoddi'r cyllid ar gyfer y cynnig hwn i gefnogi adnewyddu adeilad presennol Ysgol Gynradd Pilgwenlli a fydd yn gartref parhaol i Ysgol Gymraeg Nant Gwenlli | 2 | Mae cyllideb benodol wedi'i neilltuo ar gyfer adnewyddu adeilad presennol Ysgol Gynradd Pilgwenlli cyn i Ysgol Gymraeg Nant Gwenlli symud i mewn. Ni fydd buddsoddi yn Ysgol Gynradd Parc Tredegar yn effeithio ar y dyraniad cyllideb hwnnw. |
| Dylid gwneud mwy o waith hyrwyddo i ddenu teuluoedd lleol i Ysgol Gymraeg Nant Gwenlli sy'n gallu darparu ar gyfer mwy o ddisgyblion na'r cynnydd arfaethedig mewn capasiti yn Ysgol Gynradd Parc Tredegar. | 1 | Mae Cyngor Dinas Casnewydd yn cydnabod yr angen i hyrwyddo addysg cyfrwng Cymraeg, ond mae angen iddo hefyd ddarparu digon o leoedd i ddarparu ar gyfer dewis rhieni. Mae pedwar is-grŵp sy'n monitro gweithrediad y Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg ac mae'r grŵp 'Tyfu' sy'n cwmpasu Deilliannau 1 a 2 yn canolbwyntio'n gryf ar hyrwyddo addysg Gymraeg. Mae'r hyrwyddo yn cynnwys:<br>• Diweddariadau i ymgyrch 'Dod yn Ddwyieithog' Casnewydd;<br>• Hyrwyddo Partïon Bwmp (Baby Shower) Dechrau'n Deg ar gyfer rhieni sy’n disgwyl yn y ddinas;<br>• Cydweithio â’r Pencampwr Hyrwyddo Addysg Cyfrwng Cymraeg Rhanbarthol;<br>• Rhannu gwybodaeth hyrwyddo gyda chydweithwyr ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan;<br>• Gwnaed gwaith hyrwyddo yn ardal Pilgwenlli i hyrwyddo'r ysgol newydd i drigolion lleol, wedi'i gydlynu a'i gynllunio gan Menter Iaith Casnewydd;<br>• Prosiectau fideo hyrwyddo;<br>• Cyfathrebu gyda grwpiau'r Blynyddoedd Cynnar.<br>Yr is-grŵp "Tyfu" sy'n cyfarfod yn dymhorol ac yn cael ei gadeirio gan gynrychiolydd Cymraeg i Blant. |
| Mae’r cynnig hwn ar gyfer cynyddu capasiti ysgol cyfrwng Saesneg. | 1 | Nifer y lleoedd gwag oedd ar gael yng nghlwstwr Ysgol John Frost yn 2023 oedd 3.8%. Y clwstwr agosaf i Ysgol John Frost yw clwstwr Basaleg a oedd â gwarged o 0.9% yn 2023. Mae Llywodraeth Cymru yn argymell gwarged o 10%. Mae’r Cyngor wedi ymrwymo i gynyddu'r ddarpariaeth addysg Gymraeg ledled Casnewydd fel yr amlinellir yn ein Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg 10 mlynedd. Mae hyrwyddo Ysgol Gymraeg Nant Gwenlli, a fydd yn y pen draw yn darparu 420 o leoedd addysg cyfrwng Cymraeg yn yr ardal sy'n lleol i Ysgol |

| | | |
|---|---|---|
| | | Gynradd Parc Tredegar, yn ganolog i gyflawni'r cynllun hwn. |

Mewn ymateb i’r cwestiwn ‘A ydych chi’n credu y bydd y cynnig yn trin y Gymraeg yn llai ffafriol na’r Saesneg?’ Atebodd 6 ymatebydd 'Ydw'. Ni dderbyniwyd unrhyw sylwadau pellach.

Yn ystod y cyfnod ymgynghori, cysylltodd aelod o Fforwm Addysg Gymraeg Casnewydd â'r Cyngor a rannodd farn nad oedd yr Asesiad o’r Effaith ar y Gymraeg sydd yn yr Asesiad o’r Effaith ar Degwch a Chydraddoldeb (AEDCh) wedi rhoi tystiolaeth o ystyriaeth briodol o effeithiau'r cynnig ar y Gymraeg ac ar addysg cyfrwng Cymraeg. Mae'r AEDCh wedi'i ddiwygio a'i ddiweddaru ar ôl ystyried y sylwadau hyn ac mae bellach yn rhoi rhagor o fanylion ynghylch effaith bosibl y cynnig hwn ar y Gymraeg.

## Asesiad o’r Cynnig

Yn dilyn y cyfnod ymgynghori ffurfiol, mae'r Cyngor o'r farn bod y cynnig yn cynrychioli'r cyfraniad gorau a mwyaf cyraeddadwy i gynyddu nifer y lleoedd mewn ysgolion cynradd cyfrwng Saesneg yn ardal Duffryn. Mae effaith bosibl y cynnig ar yr iaith Gymraeg wedi cael ei hystyried yn fanwl ac ystyrir bod y mesurau sy'n cael eu defnyddio fel rhan o strategaeth hyrwyddo'r Gymraeg a chynllun gweithredu CSCA y Cyngor yn ddigonol i liniaru unrhyw effaith negyddol canfyddedig. Mae'r cynnig yn dal i gael ei ffafrio dros yr opsiynau amgen sydd ar gael.

## Argymhellion

Argymhellir ceisio caniatâd i symud y cynnig hwn yn ei flaen trwy gyhoeddi hysbysiad statudol. Caiff y penderfyniad hwn ei gyfeirio at yr Aelod Cabinet dros Addysg a’r Blynyddoedd Cynnar a bydd yn mynd trwy broses ddemocrataidd gytunedig y Cyngor.

---

Yn unol â’r Cod Trefniadaeth Ysgolion (2018), caiff yr adroddiad hwn ei gyhoeddi’n electronig ar wefan Cyngor Dinas Casnewydd yn www.newport.gov.uk/cy/Schools-Education/School-reorganisation/School-reorganisation.aspx

I wneud cais am gopi caled (papur) o’r ddogfen hon cysylltwch â Swyddog Datblygu a Gwybodaeth Addysg Cyngor Dinas Casnewydd trwy ffonio 01633 656656 neu e-bostio school.reorg@newport.gov.uk

## Atodiad A - Ffurflen Ymateb i'r Ymgynghoriad

**Mae'r ymateb hwn yn ymwneud â'r cynnig i gynyddu capasiti Ysgol Gynradd Parc Tredegar i 2.5 dosbarth mynediad o fis Medi 2024.**

Mae eich barn chi'n bwysig. Rhannwch eich sylwadau â ni am y cynnig trwy lenwi'r holiadur hwn a'i ddychwelyd at y Swyddog Datblygu a Gwybodaeth Addysg, Cyngor Dinas Casnewydd, Ystafell 425W, Canolfan Ddinesig, Casnewydd NP20 4UR. Fel arall, gallwch gwblhau'r ffurflen ar-lein https://www.newport.gov.uk/cy/Schools-Education/School-reorganisation/School-reorganisation.aspx neu e-bostio eich ymateb i school.reorg@newport.gov.uk

**Y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno ymatebion i'r ymgynghoriad hwn yw canol nos, 12 Tachwedd 2023.**Sylwer na fydd ymatebion negyddol a wneir i'r ymgynghoriad hwn yn cael eu hystyried fel gwrthwynebiadau i'r cynnig; byddant yn cael eu cofnodi fel sylwadau negyddol. Dim ond ar ôl cyhoeddi hysbysiad statudol y gellir cofrestru gwrthwynebiadau.

**1) A ydych chi'n cefnogi'r cynnig i:**

Cynyddu capasiti Ysgol Gynradd Parc Tredegar i 2.5 dosbarth mynediad o fis Medi 2024.

**Ydw** ☐ **Nac ydw** ☐ **Yn rhannol** ☐

**Defnyddiwch y blwch isod i roi sylwadau neu i esbonio pa ran o'r cynnig nad ydych yn ei chefnogi**

| |
|---|
| |

Mae gan y Cyngor ddyletswydd i ystyried a nodi'r holl effeithiau posibl y gall penderfyniad polisi eu cael ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg neu beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

**2) A ydych chi'n credu y bydd y cynnig yn effeithio'n gadarnhaol neu'n negyddol ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg?**

**Cadarnhaol** ☐ **Negyddol** ☐ **Dim effaith** ☐

**3) Os ydych o'r farn y caiff effaith negyddol, pa gamau y gallem eu cymryd i leihau neu osgoi hyn a gwella'r effeithiau cadarnhaol?**

| |
|---|
| |

**4) A ydych chi'n credu y bydd y cynnig yn trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg?**

**Ydw** ☐ **Nac ydw** ☐

**Nodwch pwy ydych chi (e.e. rhiant/ gofalwr plentyn sy'n mynychu ysgol feithrin leol)**

| |
|---|
| |

| **Dewiswch eich grŵp Ethnig** | | | |
|---|---|---|---|
| Gwyn Prydeinig | | Asiaidd-Bangladeshaidd | |
| Gwyn Gwyddelig | | Asiaidd-Indiaidd | |
| Unrhyw gefndir Gwyn arall (nodwch): ________________ | | Asiaidd-Pacistanaidd | |
| | | Unrhyw gefndir Asiaidd arall | |
| Sipsi neu Deithiwr Gwyddelig | | Du Caribïaidd | |
| Gwyn ac Asiaidd | | Du Affricanaidd | |
| Gwyn a Du Affricanaidd | | Unrhyw gefndir Du arall | |
| Gwyn a Du Caribïaidd | | Arabaidd | |
| Unrhyw gefndir Cymysg arall (nodwch): ________________ | | Tsieinëeg | |
| | | Unrhyw grŵp ethnig arall nodwch): ________________ | |
| Asiaidd-Bangladeshaidd | | | |
| Asiaidd-Indiaidd | | Mae'n well gennyf beidio â dweud | |
| Asiaidd-Pacistanaidd | | | |

| **Y Gymraeg** | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **A ydych chi'n ystyried eich hun yn siaradwr Cymraeg?** | | | | | |
| Ydw | | Nac ydw | | Mae'n well gennyf beidio â dweud | |

| **Cyfrifoldebau Gofalu** | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **A ydych chi'n gofalu am blant oedran ysgol?** | | | | | |
| Ydw | | Nac ydw | | Mae'n well gennyf beidio â dweud | |
| **A ydych chi'n gofalu am blant oedran cyn-ysgol?** | | | | | |
| Ydw | | Nac ydw | | Mae'n well gennyf beidio â dweud | |
| **A ydych chi'n gofalu am oedolyn dibynnol neu blentyn sy'n hŷn nag oedran ysgol?** | | | | | |
| Ydw | | Nac ydw | | Mae'n well gennyf beidio â dweud | |

Os hoffech gael eich hysbysu pan gyhoeddir yr adroddiad ar yr ymgynghoriad, nodwch eich manylion cyswllt isod:

E-mail: ______________________________________________

Cyfeiriad Post: ________________________________________

## Atodiad B – Ymateb gan Gymdeithas Genedlaethol yr Ysgolfeistri ac Undeb yr Athrawesau

Mae Cymdeithas Genedlaethol yr Ysgolfeistri ac Undeb yr Athrawesau yn falch nad oes unrhyw effaith negyddol ar nodweddion staffio yn y cynnig.
Bydd angen penodi staff ychwanegol yn Ysgol Gynradd Parc Tredegar i ddarparu ar gyfer y niferoedd ychwanegol o ddisgyblion. Bydd y Pennaeth a'r Corff Llywodraethu yn rheoli hyn yn unol â phrosesau recriwtio y cytunwyd arnynt (t.18)

Ond, er mwyn cefnogi'r cynnig, byddem yn gofyn am sicrwydd pendant na fyddai'r cynnig hwn yn cael unrhyw effaith anuniongyrchol ar ofynion staffio mewn ysgolion eraill. Mae hyn yn cynnwys ysgolion cynradd ac uwchradd y tu mewn a'r tu allan i'r dalgylch.

Er mwyn cynnal ansawdd uchel o addysgu a dysgu, mae'n hanfodol nad yw maint dosbarthiadau yn cynyddu. Yn ôl data MyLocalSchool, mae'r gymhareb athrawon disgyblion (CAD) yn yr ysgol hon yn llai ffafriol na chyfartaledd yr awdurdod lleol a Chymru yn y pum mlynedd o 2018. Mae hyn yn golygu bod dysgwyr yma wedi bod dan anfantais oherwydd bod ganddynt fynediad at lai o athrawon na'r ysgol gynradd gyffredin yng Nghymru. Mae data'r Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd yn dangos bod cymarebau athrawon: disgyblion uchel yn ddangosydd o berfformiad uwch gan ddisgyblion. Wrth gynyddu'r nifer derbyn cyhoeddedig, mae angen sicrhau nad yw'r gymhareb athrawon: disgyblion yn gwaethygu.

Rydym hefyd yn pryderu bod angen ariannu'r cynnydd mewn NDC yn briodol.
Yn ôl MyLocalSchool, mae data'n dangos bod swm yr arian a ddarperir ar gyfartaledd, fesul disgybl, yn is na chyfartaledd ysgolion cynradd eraill yng Nghasnewydd mewn pedair allan o'r chwe blynedd diwethaf. Wrth gynyddu'r nifer derbyn cyhoeddedig, mae angen sicrhau nad yw'r sefyllfa ariannu hon yn gwaethygu.

Yn olaf, mae angen ystyried effaith y gwaith adeiladu ar y gwaith o redeg yr ysgol o ddydd i ddydd os cymeradwyir y cynnig hwn. Mae angen rhoi cynllun priodol ar waith i sicrhau bod parhad dysgu yn ystod y gwaith adeiladu. Y flaenoriaeth yw lleihau aflonyddwch i ddysgwyr ac athrawon yn yr ysgol.

# Atodiad C – Ymateb Estyn

**Cyflwyniad**

Mae’r adroddiad hwn wedi’i baratoi gan Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru.

O dan delerau Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 a’r Cod cysylltiedig, mae gofyn i gynigwyr anfon dogfennau ymgynghori at Estyn.   Fodd bynnag, nid yw Estyn yn gorff y mae gofyn iddo weithredu yn unol â’r Cod, ac nid yw’r Ddeddf yn rhoi unrhyw ofynion statudol ar Estyn yn ymwneud â materion trefniadaeth ysgolion.  Felly, fel corff yr ymgynghorir ag ef, dim ond ar rinweddau cyffredinol cynigion trefniadaeth ysgolion y bydd Estyn yn cynnig eu barn.

Mae Estyn wedi ystyried agweddau addysgol y cynnig ac wedi rhoi’r ymateb canlynol i’r wybodaeth a roddwyd gan y cynigiwr.

**Crynodeb/ Casgliad**

Mae hwn yn gynnig gan Gyngor Dinas Casnewydd.  Bydd yn caniatáu i'r ysgol gynyddu'r nifer derbyn cyhoeddedig o 60 i 75 a chynyddu cyfanswm y capasiti ar gyfer disgyblion o oedran ysgol statudol o 420 i 525. Ni fyddai nifer derbyn y meithrin yn newid o dan y cynnig. Bydd y cynnydd capasiti yn bosibl drwy ddefnyddio ardal yng Nghanolfan Deulu y Fforest a adawyd yn ddiweddar gan dîm Cyswllt Cymunedol Duffryn. Bydd angen rhai newidiadau i'r defnydd o fannau presennol ym mhrif adeilad yr ysgol hefyd. Ar hyn o bryd mae gan yr ysgol leoedd gwag, a gallai'r cynnig gynyddu'r nifer hwn yn sylweddol.  Mae'r cyngor yn dibynnu'n helaeth ar y lleoedd gwag hyn sy'n cael eu cymryd drwy ddatblygiadau tai yn y dyfodol.  Nid ydynt wedi darparu digon o wybodaeth ynghylch sut y byddent yn mynd i'r afael â'r mater pe na bai'r lleoedd gwag yn cael eu cymryd.

Yn gyffredinol, mae Estyn o'r farn bod y cynnig yn debygol o gynnal safon y ddarpariaeth addysg a'r deilliannau ar gyfer disgyblion yn yr ysgol.

**Disgrifiad a manteision**

Mae rhesymeg y cynigydd dros y cynnig yn glir.  Bydd yn ateb y galw cynyddol disgwyliedig am leoedd mewn ysgolion cynradd yn wardiau Parc Tredegar, Gaer a Pilgwenlli yng Nghasnewydd.  Disgwylir y galw cynyddol yn dilyn datblygiadau tai newydd a sefydlwyd yn ardal gyfagos yr ysgol.

Mae'r cyngor wedi darparu disgrifiad manwl addas o'r cynnig.  Bydd y cynnig yn darparu 105 o leoedd ychwanegol i ddisgyblion yn Ysgol Gynradd Parc Tredegar, sy'n cyfateb i 15 lle ychwanegol fesul grŵp blwyddyn (Derbyn i Flwyddyn 6).  Cynigir y bydd y cynnydd capasiti yn bosibl drwy ail-bwrpasu ardal o Ganolfan Deulu y Fforest a rhannau o adeilad presennol Ysgol Gynradd Parc Tredegar i greu lle addysgu ychwanegol. Cwblhawyd llawer o'r gwaith hwyluso ar gyfer yr ehangu hwn yn 2018-2019.

Mae'r cyngor wedi darparu tabl sy'n amlinellu'r camau a'r hyd ar gyfer y broses ymgynghori ond nid yw wedi cynnwys unrhyw ddyddiadau arfaethedig yn y tabl hwn.  Nid yw ychwaith wedi cyfeirio at a fyddai angen unrhyw drefniadau dros dro sy'n angenrheidiol ar gyfer rhoi'r cynnig ar waith.

Mae'r cyngor wedi ystyried dau opsiwn arall. Yr opsiynau yw naill ai gwneud dim neu ehangu ysgol gynradd wahanol. Mae wedi rhestru manteision ac anfanteision disgwyliedig pob opsiwn. Ymddengys bod y rhain yn deg ac yn rhesymol. Ar ôl ystyried yr opsiynau hyn, mae'r cyngor wedi dweud mai'r opsiwn a ffefrir ganddo yw'r un a nodir yn y cynnig ac mae wedi rhestru buddion disgwyliedig y cynnig hwn. Mae'n ymddangos mai'r budd allweddol yw'r nifer cynyddol o leoedd disgyblion yn yr ysgol. Nid yw'r cyngor wedi nodi unrhyw anfanteision i'r cynnig hwn.

Mae'r cyngor wedi nodi pedwar risg o'r cynnig ac wedi rhestru sut y byddent yn cael eu lliniaru. Fodd bynnag, mae'n ymddangos nad oes digon o fanylion ynghylch y mesurau lliniaru hyn. Er enghraifft, mae'r cyngor wedi datgan ar gyfer tri o'r risgiau "bydd y grŵp Cynllunio Lleoedd Ysgol yn parhau i fonitro amcanestyniadau a gweithredu yn unol â hynny". Nid yw'n glir beth mae hyn yn ei olygu yn union na sut y bydd hyn yn cael ei wneud.

Mae'r cyngor wedi datgan yn briodol na fydd y cynnig hwn yn effeithio ar y trefniadau teithio presennol. Mae llwybrau cerdded diogel i safleoedd presennol yr ysgol eisoes wedi'u sefydlu. Mae trafnidiaeth rhwng y cartref a'r ysgol yn cael ei ddarparu i holl ddisgyblion oedran cynradd (oedran ysgol statudol) sy'n byw 2 filltir neu fwy o'u hysgol ddalgylch neu'r ysgol sydd agosaf iddynt.
Mae'r cyngor wedi darparu tablau sy'n dangos y niferoedd o'r gorffennol a'r niferoedd arfaethedig yn yr ysgol. Mae'n bwriadu cynyddu'r capasiti yn yr ysgol o flwyddyn i flwyddyn tan fis Medi 2030, pan fydd y capasiti llawn o 525 o ddisgyblion yn cael ei wireddu. Fodd bynnag, mae'r rhagamcanion presennol yn dangos mai dim ond 385 o ddisgyblion fydd yn yr ysgol yn 2029-2030. Gallai hyn olygu gwarged o 140 o ddisgyblion neu 27% o leoedd gwag. Mae'r cyngor yn dibynnu'n helaeth ar y lleoedd gwag hyn sy'n cael eu cymryd drwy ddatblygiadau tai yn y dyfodol. Nid ydynt wedi darparu digon o wybodaeth ynghylch sut y byddent yn mynd i'r afael â'r mater pe na bai'r lleoedd gwag yn cael eu cymryd.

Mae'r cyngor wedi ystyried effaith y cynnig ar ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg ac wedi dod i'r casgliad nad yw'n effeithio ar gynlluniau'r Cyngor ar gyfer cynyddu'r ddarpariaeth addysg Gymraeg ledled Casnewydd fel yr amlinellir yn ei Gynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg (CSCA) 10 mlynedd.

Mae'r cyngor wedi nodi mai cost y cynnig yw £1m drwy gyllid cymeradwy gan Lywodraeth Cymru. Mae wedi nodi ymhellach mai cost y 105 o leoedd ychwanegol fydd tua £360,000 y flwyddyn a bydd y cynnydd mewn costau yn cael ei ariannu drwy gyllideb ddirprwyedig yr ysgol. Fodd bynnag, nid yw'n ymddangos bod y cyngor wedi ystyried beth fyddai'r effaith ar y gyllideb pe na bai'r lleoedd ychwanegol yn cael eu cymryd.

Nid yw'r awdurdod lleol wedi darparu Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg fel rhan o'r cynnig hwn.

Nid yw'r awdurdod lleol wedi darparu Asesiad o'r Effaith ar y Gymuned fel rhan o'r cynnig hwn.

DS. Mae Estyn yn rhoi ei farn ar rinweddau cyffredinol y cynigion trefniadaeth ysgolion yn unig ac nid yw'n gwerthuso'r Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg na'r Asesiad o'r Effaith ar y Gymuned.

**Agweddau addysgol y cynnig**

Mae'r cyngor wedi cyfeirio at adroddiad arolygu diweddaraf Estyn ar gyfer Ysgol Gynradd Parc Tredegar ym mis Hydref 2022 ac ymddengys ei fod wedi ystyried effaith y cynnig ar ansawdd a safonau mewn addysg. Mae wedi darparu digon o sylwadau ar effaith y cynnig ar wahanol agweddau ar ddysgu, lles ac agweddau at ddysgu, addysgu a phrofiadau dysgu,

gofal, cymorth ac arweiniad ac arweinyddiaeth a rheolaeth. Ymddengys bod y rhain yn deg ac yn rhesymol.

Mae'r cyngor wedi darparu 'Asesiad o’r Effaith ar Degwch a Chydraddoldeb' fel dogfen ar wahân. Yn adroddiad arolygu diwethaf yr ysgol, nodwyd bod gan 19.2% o blant anghenion dysgu ychwanegol a nodwyd 7.5% o ddisgyblion â Saesneg fel iaith ychwanegol. Mae'r rhain yn uwch na'r cyfartaleddau cenedlaethol ond nid oes gwerthusiad o effaith y cynnig ar y grwpiau hyn.

Mae'r cyngor wedi cydnabod y ffaith y bydd angen penodi staff ychwanegol yn yr ysgol i ddarparu ar gyfer y niferoedd ychwanegol o ddisgyblion. Mae’r cynnig yn esbonio y bydd y Pennaeth a'r Corff Llywodraethu yn rheoli hyn yn unol â phrosesau recriwtio y cytunwyd arnynt.

# Atodiad D - Ymateb Comisiynydd y Gymraeg

Diolch am y cyfle i gyfrannu at yr ymgynghoriad ar ehangu Ysgol Gynradd Parc Tredegar o fis Medi 2024. Rydym yn ysgrifennu i drafod y cynnig ar gyfer yr ysgol cyfrwng Saesneg hon yng nghyd-destun cynlluniau'r Cyngor ar gyfer addysg Gymraeg yn yr un dalgylch.

Nodir yn y ddogfen ymgynghori bod galw cynyddol am leoedd mewn ysgolion cynradd yn wardiau Parc Tredegar, Gaer a Philgwenlli o ganlyniad i ddatblygiadau tai mawr yn lleol. Eglurir bod y Cyngor yn ffafrio ehangu Ysgol Gynradd Parc Tredegar yn benodol i ddelio â phwysau yn sgil y datblygiadau hyn yn y dyfodol.

Mae gan y Cyngor gynlluniau i leoli ysgol gynradd Gymraeg, Ysgol Gymraeg Nant Gwenlli, yn yr un dalgylch yn 2025. Mae'r ysgol honno eisoes wedi'i sefydlu fel ysgol newydd ar safle dros dro ers 2021. Y bwriad gwreiddiol, yn ôl y Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg ar gyfer 2022-2023 (CSCA), oedd symud yr ysgol i'w lleoliad parhaol ym Mhilgwenlli ym mis Medi 2024. Mae'r ysgol newydd hon yn ganolog i gynlluniau'r Cyngor i ehangu addysg cyfrwng Cymraeg, drwy gynyddu nifer y lleoedd cynradd cyfrwng Cymraeg sydd ar gael ledled y ddinas gan 54%. Nodir yn y ddogfen ymgynghori y bydd Ysgol Gymraeg Nant Gwenlli yn symud i'w lleoliad parhaol, sef safle Ysgol Gynradd Pilgwenlli, yn 2025. Bydd Ysgol Gynradd Pilgwenlli, sy'n ysgol cyfrwng Saesneg, yn symud i adeilad newydd a fydd yn caniatáu i'r ysgol honno gynyddu ei chapasiti hefyd.

Yn yr adran 'Effaith ar ddarpariaeth Gymraeg' nodir na fydd y cynnig i ehangu Ysgol Gynradd Parc Tredegar yn effeithio ar gynlluniau'r Cyngor ar gyfer tyfu darpariaeth addysg Gymraeg ar draws Casnewydd. Mae'r Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb a Thegwch yn egluro bod digon o leoedd yn y sector cyfrwng Cymraeg yn yr ardal a bod disgwyl i hyn barhau pan fydd Ysgol Gymraeg Nant Gwenlli yn cael ei symud i'w lleoliad parhaol fel ysgol sy'n tyfu. Fodd bynnag, mae gennym bryderon am hyn. Bydd dalgylch Ysgol Gynradd Parc Tredegar o fewn dalgylch Ysgol Gymraeg Nant Gwenlli. Nodir bod 75.3% o leoedd gwag yn Ysgol Gymraeg Nant Gwenlli ar hyn o bryd. Yng nghyd-destun ehangu Ysgol Gynradd Parc Tredegar, sy'n dechrau flwyddyn cyn i Ysgol Gymraeg Nant Gwenlli symud i'r dalgylch, ydy'r Cyngor wedi ystyried sut y bydd yn hyrwyddo Ysgol Gymraeg Nant Gwenlli er mwyn sicrhau ei bod yn cyrraedd ei photensial o ran cynyddu capasiti?

Gan fod y Cyngor yn ffafrio ehangu Ysgol Gynradd Parc Tredegar yn benodol i ddelio â phwysau yn y dyfodol yn sgil datblygiadau tai newydd, gofynnwn pa ystyriaeth y mae'r Cyngor wedi'i rhoi i botensial Ysgol Gymraeg Nant Gwenlli yn y cyd-destun hwn? A oes gan y Cyngor gynlluniau i hyrwyddo manteision addysg Gymraeg i'r teuluoedd fydd yn symud i'r cartrefi newydd hynny? Dylid sicrhau bod addysg Gymraeg yn cael ei chyflwyno fel dewis gwerthfawr i'r teuluoedd fydd yn setlo yn y datblygiadau tai hynny.

Dylai'r Cyngor ystyried i ba raddau y gallai ehangu Ysgol Gynradd Parc Tredegar effeithio ar gyrraedd targedau'r CSCA, yn enwedig Deilliannau 1 a 2, sydd mor ddibynnol ar lwyddiant Ysgol Gymraeg Nant Gwenlli. Pe bai'r Cyngor yn penderfynu gweithredu'r cynnig, byddem yn argymell yn gryf ei fod yn sefydlu mesurau lliniaru clir a chadarn i sicrhau nad yw ehangu Ysgol Gynradd Parc Tredegar yn cael effaith niweidiol ar ddatblygiad addysg Gymraeg yn y dalgylch. Fel y gwyddoch, mae safonau'r Gymraeg yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol roi ystyriaeth lawn a chydwybodol i effaith bosibl penderfyniadau polisi ar y Gymraeg.

Byddem yn hoffi clywed gan y Cyngor sut y bydd yn gweithredu i hyrwyddo Ysgol Gymraeg Nant Gwenlli a sicrhau ei bod yn llwyddo i gyflawni ei photensial fel ysgol cyfrwng Cymraeg a gwireddu amcanion y CSCA.